

Bangor University's Declaration on Fossil Fuel

Bangor University is committed to safeguarding a liveable climate for all.

Since 2016 the University has not invested in extractive fossil fuel companies and is committed to ensuring that they will be excluded from any future investments made.

In December 2015, 195 countries committed to a legally binding international commitment to keep global warming between 1.5 and 2 degrees – the first deal of its kind.

Universities exist for the public good, from conducting life-changing research to educating the global citizens and leaders of tomorrow and are at the forefront of climate change research. As such Bangor University does not and will not invest in an industry that has 5 times more reserves than is safe to burn if we are to stay within the parameters of 1.5 and 2 degrees of global warming.

Students from around the world study with us at Bangor University. Many come from communities in the Global South and have direct experience of the devastating effect of climate change. Our investment decisions reflect our ambition to protect the future of all of our students – current and future.

More than a quarter of UK Higher Education institutions have thus far committed to divest from these corporations in some way. Bangor University was at the forefront of this growing movement having consciously divested from fossil fuels since 2016. This reflects the University's desire to support and contribute to a global transition to a low-carbon economy.

This decision demonstrates that we are embracing our role as globally significant entities

We hope that many more of our fellow educational institutions will join us.

For the avoidance of doubt, Bangor University declares that:

It has not held investments in extractive fossil fuel companies since 2016.
It will never invest in these companies.

Signed:

Date: 13 May 2020



Professor Oliver Turnbull, Deputy Vice-chancellor and Chair of Bangor University's Sustainability Strategy Group

Datganiad Prifysgol Bangor ar fuddsoddi mewn tanwydd ffosil.

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i ddiogelu'r hinsawdd ar gyfer pawb.

Nid yw'r Brifysgol wedi buddsoddi mewn cwmnïau tanwydd ffosil echdynnol ers 2016 ac mae wedi ymrwymo i sicrhau y bydd byddsoddiadau o'r fath yn cael eu heithrio yn y dyfodol.

Ym mis Rhagfyr 2015, arwyddodd 195 o wledydd ddogfen ryngwladol sy'n eu rhwymo'n gyfreithiol i gadw cynhesu byd-eang rhwng 1.5 a 2 radd – y fargen gyntaf o'i bath.

Mae prifysgolion yn bodoli er budd y cyhoedd. Mae eu gweithgaredd yn eang - o gynnal ymchwil sy'n newid bywydau i addysgu dinasyddion ac arweinwyr byd-eang yfory ac maent ar flaen y gad o ran ymchwil i newid yn yr hinsawdd. Yn sgíl hyn, nid yw Prifysgol Bangor yn nac yn bwriadu buddsoddi mewn diwydiant sydd â 5 gwaith yn fwy o gronfeydd wrth gefn na'r hyn sy'n ddiogel i'w losgi os ydym am aros o fewn paramedrau 1.5 a 2 o gynhesu byd-eang.

Daw myfyrwyr o bob cwr o'r byd i astudio gyda ni ym Mhrifysgol Bangor. Mae llawer yn dod o gymunedau yn y 'De' byd-eang ac mae ganddynt brofiad uniongyrchol o effaith ddinistriol newid yn yr hinsawdd. Mae ein penderfyniadau buddsoddi yn adlewyrchu ein huchelgais i ddiogelu dyfodol ein holl fyfyrwyr – y presennol a'r dyfodol.

Erbyn hyn, mae mwy na chwarter sefydliadau addysg uwch y DU wedi ymrwymo i gael gwared ar y corfforaethau sy'n niweidio'r blaned mewn rhyw ffordd. Roedd Prifysgol Bangor ar flaen y gad yn y symudiad cynyddol hwn gan ei fod wedi dewis peidio â byddsoddi mewn cwmniau tanwyddau ffosil ers 2016. Mae hyn yn adlewyrchu awydd y Brifysgol i gefnogi a chyfrannu at newid i economi carbon isel ar draws y byd.

Mae'r penderfyniad hwn yn dangos ein bod yn cofleiddio ein rôl fel endidau byd-eang o bwys.

Ein gobaith yw y bydd llawer mwy o'n cyd-sefydliadau addysgol yn ymuno â ni.

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae Prifysgol Bangor yn datgan:

- Nid yw wedi dal buddsoddiadau mewn cwmnïau tanwydd ffosil echdynnol ers 2016.
- Ni fydd byth yn buddsoddi yn y cwmnïau hyn.

Llofnodwyd:

Dyddiad: 13 Mai 2020



Yr Athro Oliver Turnbull, Dirprwy Is-Ganghellor a Chadeirydd Grŵp Strategaeth
Cynaliadwyedd Prifysgol Bangor